CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 26ain CHWEFROR 2019.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Mrs Carol McGregor, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr John Pritchard, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Ms Linda Jones, Ms Rhian Roberts & Mr Ian Owen.

2 YMDDIHEURIAD:

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts & Mr Eric Jones.

3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd gan y Cadeirydd.

3.2 DATGAN DIDDORDEB RHAGFARNOL.

3.2.1 Nid oedd unrhyw aelod wedi datgan diddordeb mewn unrhyw eitem a oedd ar y rhaglen.

4 AROLWG TAI LLEOL – TAI FFORDDIADWY.

4.1 Croesawyd Mr Dylan Owen, Hwylusydd Tai Gwledig i'r cyfarfod ac fe ddechreuodd wrth ddweud ei fod yn gweithio mewn partneriaeth a'r Cyngor Sir a Tai Gogledd Cymru. Dywedodd fod ganddynt Cynllun Tai Teg ac fod perchennog safle Tyddyn Rhyd, Gaerwen wedi cysylltu gyda nhw yn cynnig y safle er mwyn darganfod a oes angen am dai a thai fforddiadwy ar gyfer trigolion yr ardal. Aeth ymlaen a dweud fod unrhyw blaenoriaeth yn mynd at cymdogion lleol petai datblygiad y safle yn symud ymlaen ac y bydd ganddynt 4x 1 fflatiau gwely a 12x2 ystafell gwely. Yn dilyn trafodaeth cryno ynghylch a'r cynnig, roedd yr aelodau yn unfrydol o gefnogi fath gynllun ac y bydd Mr Dylan Owen yn symud ymlaen gan drefnu diwrnod agored yn fuan iawn er mwyn darganfod barn y bobl lleol.

5 CYWIRO, DERBYN & ARWYDDO COFNODION CYFARFOD (29ain Ionawr 2019).

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod Mis Ionawr 2019 yn gywir. (DH/CJ).

Arwyddo.....

6 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

6.1 Sedd Gwag – dywedodd y Clerc ei fod wedi trefnu hysbysebu'r sedd gwag gyda'r Cyngor Sir yn y drefn arferol.

6.2 Llwybr 33 – dim datblygiad ar hyn o bryd.

6.3 Giat Cae Chwarae Mawr – dim datblygiad gyda Adran Briffyrdd y Cyngor Sir ar hyn o bryd gyda cais ystyried gosod llinellau gwyn tu allan i fynediad y Cae Chwarae.

6.4 Lon Llangaffo – angen sylw ynghylch a ail lleoli arwydd 40mya a datrys gordyfiant ar bolyn/ffens sydd wedi siglo dan bwysau ochr isa Capel Berea – dim datblygiad ar hyn o bryd.

6.5 Lles Cae Chwarae (Clwb Pel Droed) - roedd y Clerc am cysylltu gyda Adran Eiddo yn gofyn iddynt am ymateb swyddogol a'r sefyllfa diweddaraf.

6.6 Postyn Gôl & Graffiti – disgwylir i'r gwaith ei cwblhau pan ddaw tywydd gwell.

6.7 Cynnal & Cadw Gwyneb Safle Maes Chwarae – nid oedd amcancyfrif ychwanegol wedi dod I law ac fe gynnigiodd y Clerc I gysylltu gyda Cwmni Playquest wedi ei leoli yn Rhyl a gofyn iddynt prisio'r gwaith sydd ei angen. CYTUNO.

6.8 Offer Seasaw – roedd Cynghorydd Cynrig Jones a Ian Owen wedi gwneud archwiliad sydyn ac fod angen sylw i'r offer er budd lechyd & Diogelwch. Glustnodwyd £500 o gyllideb 2019/2020 ar gyfer y gwaith.

6.9 Lamp Stryd ger Gardd y Mileniwm – adroddiad fod angen sylw a cysylltu gyda Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

6.10 Maes Parcio y Cyngor, Lon Gors – angen clirio coeden ddraenan du yn mesur rhyw 4-5 medr a oedd wedi disgyn i'r maes parcio. Clerc i ofyn i Mr O G Jones.

6.11 Adroddiad Gor Yrru Stryd y Capel – dim ymateb oddiwrth yr Heddlu yn gofyn iddynt am adroddiad gor-yrru Stryd y Capel bron dwy flynedd yn nol ac angen ail-edrych ar y sefyllfa yn dilyn digwyddiadau yn ddiweddar. Roedd Cynghorydd Sirol Dafydd Roberts wedi gwneud ymholiadau gyda Uwch Beiriannydd Traffig & Pharcio y Cyngor Sir ac awgrymir bod angen astudiaeth newydd o'r safle – CYTUNO.

7 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

7.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 31/01/2019 - cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Ionawr 2019 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

7.2 Gofynnodd y Clerc fod angen diweddaru cofrestr asedau y Cyngor ar gyfer yr archwiliad blynyddol yn dilyn adroddiad yr archwilwyr allanol. Cyng Ian Owen i gynorthwyo'r Clerc erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

7.3 Roedd y Clerc wedi ddarparu a dosbarthu Rheolau Cyllid Newydd ar gyfer y Cyngor ac yn gofyn i'r aelodau mabwysiadau yn y cyfarfod nesaf.

7.4 Roedd y Clerc wedi darparu a dosbarthu Rheolau Gorchymyn Statudol Newydd ar gyfer y Cyngor ac yn gofyn i'r aelodau mabwysiadu yn y cyfarfod nesaf.

7.5 Cytunwyd wneud rhodd/cyfraniad £300.00 i Eglwys St Mihangel (s214/1972)

7.6 Cytunwyd wneud rhodd/cyfraniad £100.00 i CPD Iau y Gaerwen (s19/LGA1976).

7.7 Penderfynwyd aelodau na fydd ystyried i unrhyw gais cyfraniad a gosod dyddiad cau 31ain Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn o hyn ymlaen

8 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Cynllunio Llawn – Creu Maes Parcio, Cyffordd 7 (A55) Gaerwen – FPL/2018/30 – GWRTHWYNEBU' R CAIS ar sail lleoliad anaddas ac nid oedd angen fath safle bellach yn dilyn penderfyniad Cwmni Hitachi ynghylch a Wylfa Newydd.

8.2 Cais Diwygio Amodau (Cynllun Goleuo) Cais Caniatad Cynllunio Unedau Diwydiannol 1-4 Stad Bryn Sunsur, Lon y Graig, Gaerwen – VAR/2019/13 – DIM SYLWADAU

8.3 Cais Llawn Addasu & Ehangu & Creu Estyniad i'r Cwrtil yn Tyddyn, Gaerwen – HHP/2019/51 – DIM SYLWADAU.

9. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

9.1 Pwyllgor Y Ganolfan – dim adroddiad ar hyn o bryd.

9.2 Pwyllgor Llywodraethwyr yr Ysgol – dim adroddiad yn absnoldeb Cyng Ian Owen.

9.3 Fforwm Cynghorau Tref & Chymunedau – cyfarfod nesaf yn Mis Chwefror.

9.4 Un Llais Cymru – Cyfarfod Nesaf yn Mis Mawrth – dywedodd Cyng Einion Williams fod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaldr yn chilio am gynrychiolydd newydd ar y Bwrdd.

9.5 Eisteddfod Mon Bro Esceifiog (Gaerwen) – Dim Adroddiad.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 26ain MAWRTH 2019.

10.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:25yh.